Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

# Ffurflen Gais Bwyd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig

## Canllawiau ar sut i lenwi ceisiadau

© Hawlfraint y Goron Rhif ISBN: ISBN 978-1-80195-192-0

# Cynnwys


Gwybodaeth ..... 3
  Cofrestu ar gyfer RPW Ar-lein ..... 5
Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein) ..... 5
  Tudalen fewngofnodi Porth y Llywodraeth ..... 5
Hafan ..... 6
Y Dudalen Ffurflenni ..... 8
Ffurflen Gais Bwyd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Dechrau Cais ..... 9
  Parhau â Chais / Dechrau eto ..... 10
Cyflwyniad ..... 12
Hysbysiad Preifatrwydd ..... 13
Manylion y Busnes/Corff ..... 14
Trosolwg ar y Prosiect ..... 16
Cynllun y Busnes/Prosiect ..... 19
  Cynllun y Busnes/Prosiect - Ffit Strategol ..... 20
  Cynllun y Busnes/Prosiect – Addasrwydd y Buddsoddiad ..... 22
  Cynllun y Busnes/Prosiect – Cyflawni'r Prosiect ..... 24
  Cynllun y Busnes/Prosiect – Cyflawni – Risg a Rheoli Risg ..... 27
  Cynllun y Busnes/Prosiect – Cynaliadwyedd Hirdymor ..... 29
  Cynllun y Busnes/Prosiect – Rheoli'r Prosiect ..... 31
  Cynllun y Busnes/Prosiect – Gwerth am Arian ..... 33
    Y Grantiau Mwyaf a Lleiaf ..... 38
  Cynllun y Busnes/Prosiect – Themâu Trawsbynciol ..... 40
  Cynllun Busnes/Prosiect – Dangosyddion a Chanlyniadau ..... 42
    Is-fesur 6.4 ..... 42
    Gwybodaeth Gyffredinol ar gyfer pob Mesur ..... 44
  Dangosyddion a Chanlyniadau ..... 45
  Cynllun y Busnes/Prosiect – Ariannol a Chydymffurfio ..... 50
    Pob Prosiect ..... 50
  Rhestr o Ddogfennau Atodol sydd eu hangen ..... 53
Cyflwyno ..... 54
  Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb ..... 54
Datganiad ac Ymrwymiadau ..... 55
Cyflwyno ..... 56
Ar ôl Cyflwyno'r Cais yn Llwyddiannus ..... 57
  Beth fydd yn digwydd nesaf? ..... 57
Cysylltiadau ..... 58

# Gwybodaeth

Mae'r canllaw hwn yn eich tywys trwy'r camau ar gyfer llenwi a chyflwyno eich cais ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd i Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i chi lenwi ffurflen ar-lein, gan roi manylion i Lywodraeth Cymru am eich prosiect fel y gellir asesu a yw'n gymwys, ac os bydd yn dderbyniol, ei sgorio ar gyfer ei ddethol. Bydd yr ymgeiswyr yn cael gwybod beth fydd canlyniad y broses ddethol, a dim ond ceisiadau a gaiff eu dewis yn ystod y broses ddethol a fydd yn destun gwerthusiad llawn ar gyfer eu hystyried am gontract a dyfarniad grant.

Darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus. Bydd angen i chi ddarllen y Nodiadau cyfarwyddyd hefyd, oherwydd mae'r rhain yn cynnwys manylion llawn am y cyfleodd sydd ar gael yn ogystal â'r meini prawf cymhwystra allweddol.

Yn achos prosiectau a gaiff eu dewis, penderfynir ar swm y cyllid a fydd ar gael i bob cais yn ystod y broses werthuso ac ni fydd y swm hwn yn cael ei gadarnhau hyd nes y bydd y prosesau asesu a gwerthuso wedi'u cwblhau. Ni fydd swm terfynol y grant a ddyfernir yn uwch na'r swm a nodir yn y cais Datganiad o Ddiddordeb, a phan fo'n berthnasol bydd yn cael ei gapio ar £150,000.

Rhaid cyflwyno ceisiadau'n electronig trwy RPW Ar-lein. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw adeg rhwng y dyddiad agor a'r dyddiad cau a gyhoeddwyd ar gyfer y cynllun. Ni fydd unrhyw gyfle am estyniad.

Ni fydd yn rhaid aros tan ddiwedd y cyfnod ymgeisio cyn cyflwyno ceisiadau. Argymhellir yn gryf y dylid cyflwyno ceisiadau cyn gynted â phosibl. Bydd y broses werthuso'n cychwyn cyn gynted ag y derbynnir y cais.

Mae ceisiadau'n cynnwys nifer o wahanol ddogfennau a ffynonellau gwybodaeth. Rhaid cyflwyno'r canlynol:

- Ffurflen ar-lein;
- cyfrifon masnachu ar gyfer y tair blynedd diwethaf (pan fo hynny'n berthnasol);
- llif arian – ar gyfer y cyfnod y cyflawnir y prosiect.

Efallai y bydd yn rhaid cyflwyno'r canlynol i ategu'r cais os bydd y prosiect yn gofyn am hynny. Nid yw hon yn rhestr derfynol na hollgynhwysfawr.

- Cynllun Busnes Strategol;
- dogfennau technegol, fel cynlluniau a manylebau adeiladau;
- manylebau technegol ar gyfer cyfarpar a pheiriannau;
- caniatâd cynllunio, cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu, cymeradwyaeth ar gyfer defnyddio'r safle;
- map ar raddfa 1:1,200/1:1,250 yn dangos safle'r prosiect mewn perthynas â'r meysydd hyn, a chynllun yn dangos lleoliad arfaethedig y cyfarpar cyfalaf;
- copi o ganiatâd cynllunio manwl yr Awdurdod Lleol;

- asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol a/neu arolygon cynefinoedd;
- copi o'r Asesiad BREEAM;
- astudiaethau dichonoldeb blaenorol (i ategu cynigion buddsoddi);
- tystiolaeth o ymarferion tendro cystadleuol am nwyddau a gwasanaethau;
- tystiolaeth o ymarferion caffael;
- tystiolaeth eich bod wedi cymharu costau;
- manylion am staff cyflawni allweddol y prosiect;
- tystiolaeth gefndir arall ar gyfer sefydliadau neu gwmnïau newydd;
- copi o'r Memorandwm a'r Erthyglau (bydd hyn yn ofynnol os yw'r busnes yn endid cyfreithiol corfforedig);
- trwyddedau tynnu dŵr, trwyddedau gollwng dŵr, trwyddedau rheoli gwastraff, caniatâd newid defnydd busnes, neu unrhyw ganiatâd statudol sydd ei angen i gynnal y gweithgaredd.

Bydd natur a maint yr wybodaeth y gofynnir amdani'n ddibynnol ar natur y prosiect a hyd a lled y gweithgareddau neu'r buddsoddiadau.  Bydd angen i rai prosiectau

gyflwyno llawer mwy o wybodaeth na phrosiectau eraill, megis y math o wybodaeth a restrir uchod.

Os bydd gwybodaeth ar goll byddwn yn gofyn amdani, ond bydd hyn yn arafu'r broses o asesu eich cais.

Sylwer: Os cewch broblemau gydag RPW Ar-lein, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Yn ôl at y Cynnwys


# Cofrestu ar gyfer RPW Ar-lein

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein.  I gael mwy o fanylion, darllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru.  Gellir newid y rhan fwyaf o fanylion y busnes ar-lein.  Fodd bynnag, efallai y bydd Llywodraeth Cymru angen manylion pellach am unrhyw newidiadau mawr.  I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

# Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein)

## Tudalen fewngofnodi Porth y Llywodraeth

Mewngofnodwch ar eich Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Rhif Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os cewch broblemau neu os na allwch fynd i mewn i'ch cyfrif ar-lein, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Yn ôl at y Cynnwys

# Hafan

Ar ôl mewngofnodi ar eich cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein.




Yn yr adran ‘Dechrau Ffurflen’ ar waelod y sgrin Hafan, cliciwch ar enw’r cynllun perthnasol y dymunwch wneud cais amdano. Bydd Ffurflen Gais Bwyd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig ar gael yma tan y dyddiad cau.



**Neu** gallwch glicio ar y tab **'Ffurflenni'** ar hafan RPW Ar-lein, fel y dangosir isod:





Bydd hyn yn eich tywys at y dudalen 'Ffurflenni'.

I newid yr iaith unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm **Cymraeg / English** ar frig y sgrin, ar y dde. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis ym mha iaith y gwelwch Ffurflen Gais Bwyd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig.

[Yn ôl at y Cynnwys]

# Y Dudalen Ffurflenni

Ar ôl i chi ddewis y tab 'Ffurflenni', byddwch yn gweld y ffurflenni sydd ar gael i chi eu llenwi.





Sgroliwch i lawr y dudalen i ddewis y ffurflen y dymunwch ei chyflwyno.

[Yn ôl at y Cynnwys]

# Ffurflen Gais Bwyd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Dechrau Cais

Ar ôl i chi ddarllen Llyfryn Rheolau Cyffredinol Bwyd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig yn Grantiau a thaliadau gwledig, cliciwch ar y botwm **Dechrau** i gychwyn eich ffurflen gais.


RPW Ar-Lein Online

- Yn edrych ar CRN: (Newid Cwsmer) English Allgofnodi

Hafan | Fy Manylion | Tir | Gohebiaeth 12 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach

**Dechrau Cais** dechrau cais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig** - **Ffurflen Fwyd.**

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn 22 Chwefror 2021. Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn 22 Chwefror 2021.

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig** - **Ffurflen Fwyd** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
Enw Masnachu
Cyfeiriad
Côd Post
Rhif Ffôn
Cyfeiriad e-bost
Nifer y Partneriaid

Dewisiadau Ar-lein
E-bost ynte neges destun (SMS)
Cyfeiriad e-bost
Rhif ffôn symudol


Dechrau | Canslo

Mae'r dudalen hon yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth cyn dechrau'r cais. Mae'n cynnwys dolen ar gyfer y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid pe bai angen, ynghyd â Manylion y Cwsmer a Dewisiadau Ar-lein mewn perthynas â chi. Dylech wirio a newid y rhain cyn cychwyn eich cais os ydynt yn anghywir.

Yn ôl at y Cynnwys

# Parhau â Chais / Dechrau eto

Ar ôl i chi ddechrau eich cais, gallwch ddewis ei adael a dychwelyd ato yn nes ymlaen.  Os ydych yn dychwelyd at gais rydych wedi’i gychwyn o’r blaen, ar y sgrin hon fe fyddwch yn awr yn gallu Parhau (y botwm glas ar waelod y sgrin) neu byddwch yn gallu Dechrau Eto trwy glicio ar y ddolen a ddangosir yn y sgrin lun hwn.


Parhau â Chais parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Ffurflen Fwyd.** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Ffurflen Fwyd.**

Cewch ddewis dileu'ch **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Ffurflen Fwyd** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Ffurflen Fwyd** a llenwir y **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Ffurflen Fwyd** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2021. Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn 31 Rhagfyr 2021.

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Ffurflen Fwyd** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
**Enw Masnachu**
**Cyfeiriad**
**Côd Post**
**Rhif Ffôn**
**Cyfeiriad e-bost**
**Nifer y Partneriaid**


Dewisiadau Ar-lein
**E-bost ynte neges destun (SMS)**
**Cyfeiriad e-bost**
**Rhif ffôn symudol**

Parhau i weithio ar **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Ffurflen Fwyd** a gafodd ei ddiweddaru ar 10/03/2021

Parhau | Yn ôl

Cofiwch – os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn ailosod yr holl gwestiynau a atebwyd gennych a bydd yn cael gwared â’r holl wybodaeth a ychwanegwyd.

Os ydych yn siŵr eich bod yn dymuno Dechrau Eto, cliciwch ar Ydw, neu fel arall cliciwch ar Na, fel y dangosir yn y sgrin lun hwn:





[Yn ôl at y Cynnwys]

# Cyflwyniad

Dyma'r dudalen gyflwyno lle cewch wybodaeth am gynllun Bwyd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig.  I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth a gynhwysir ar y dudalen hon, darllenwch Lyfryn Rheolau Cyffredinol cynllun Bwyd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig yn yr adran [Grantiau a thaliadau gwledig]() ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar frig y sgrin hon, ar y chwith, ceir dolen yn arwain at y canllawiau hyn ar Sut i Lenwi Ceisiadau.  Hefyd, gallwch glicio ar y testun 'Sut i Lenwi Ceisiadau', a byddwch yn cael eich tywys at y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar y chwith fe welwch wahanol adrannau.  Mae croes goch yn arwydd nad ydych wedi mynd i mewn i bob adran eto, neu fod gwall i'w gael o fewn yr adran(nau). Bydd tic gwyrdd yn ymddangos ar ôl i chi lenwi pob adran a phan na fydd unrhyw wall i'w gael.  Ceir nifer o fotymau llywio ar frig a gwaelod y ffurflen.  Hefyd, os dymunwch symud yn ôl a blaen rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, fe welwch fotwm ar gyfer gwneud hyn ar waelod y sgrin, ar y chwith, fel y dangosir yn y sgrin lun isod.





Ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys]()

# Hysbysiad Preifatrwydd

Ar y dudalen 'Hysbysiad Preifatrwydd' nodir eich hawliau a'r hyn y bydd angen i ni ei wneud â'ch gwybodaeth er mwyn prosesu eich cais.  Rhaid i chi ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.




Ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.






[Yn ôl at y Cynnwys]

# Manylion y Busnes/Corff


Ar y dudalen 'Manylion y Busnes/Corff' byddwch yn cyflwyno gwybodaeth yn ymwneud â'ch busnes, er enghraifft sut fath o fusnes sydd gennych, unrhyw gyfeirnodau perthnasol, maint eich busnes/sefydliad a faint o staff sydd gennych. Defnyddir yr wybodaeth hon i'n helpu i weld a ydych yn gymwys i gael y grant dan sylw.

Mae'n orfodol i chi ateb mwyafrif y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.



Efallai y bydd rhai cwestiynau yn eich cymell i gyflwyno mwy o fanylion, gan ddibynnu ar yr atebion a roddwch, fel y dangosir isod:




Ar ôl i chi ateb yr holl gwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





Yn ôl at y Cynnwys


# Trosolwg ar y Prosiect

Ar y dudalen ‘Trosolwg ar y Prosiect’ bydd yn rhaid i chi gyflwyno rhywfaint o wybodaeth gyffredinol am y Prosiect, fel enw’r prosiect, disgrifiad ohono, cyfeiriad y lleoliad a’r dyddiadau cychwyn a gorffen.

Mae’n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.





Nodwch eich cod post yn y blwch a dewiswch y botwm **Chwilio am gyfeiriad**.




Dewiswch eich cyfeiriad o blith y rhestr. Yna, rhaid i chi nodi dyddiad dechrau a dyddiad gorffen eich Prosiect. Gallwch naill ai deipio’r dyddiad eich hun neu gallwch

glicio ar eicon y calendr, fel y gwelir isod.  Ni fydd modd i chi nodi dyddiad gorffen prosiect ar ôl 30 Mehefin 2023.





Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




Yn ôl at y Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect

Mae a wnelo adran nesaf y ffurflen â Chynllun eich Prosiect.  Rhaid i bob cais ar gyfer cymorth grant trwy Raglenni Gwledig 2014-2020 lunio Cynllun Prosiect. Templed safonol yw Cynllun Prosiect, ac mae ganddo ddeg pennawd.




Bydd yr wybodaeth a gyflwynwch dan bob un o'r penawdau hyn yn cael ei defnyddio yn ystod y broses asesu a gwerthuso, ac yna bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â dyfarnu cymorth grant i'r prosiect.

**Sylwer: os bydd angen mwy o wybodaeth, efallai y bydd hyn yn arwain at oedi cyn y gellir gwerthuso'r cais, felly argymhellwn eich bod yn dilyn y canllawiau'n ofalus er mwyn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol.  Fodd bynnag, pe bai unrhyw beth yn aneglur neu pe baem angen mwy o wybodaeth, byddwn yn cysylltu â chi.**

Mae'n bwysig nodi bod yn rhaid i'r manylion a gyflwynir ym mhob adran fod yn briodol ac yn gymesur â chwmpas a graddfa'r prosiect arfaethedig.

Yn ôl at y Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect - Ffit Strategol

Yn yr adran ‘Ffit Strategol’, bydd yn rhaid i chi esbonio sut bydd y Prosiect arfaethedig yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y Gronfa a’r Cynllun neu’r Mesur, fel y cânt eu nodi yn nodiadau cyfarwyddyd y Cynllun.

Bydd yn rhaid i chi esbonio sut bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at nodau cyffredinol Cynllun Gweithredu’r Strategaeth Bwyd, yn gwella eich Busnes/Sefydliad ac yn datblygu eich Busnes/Sefydliad.


Bydd yn rhaid i chi esbonio’n glir sut mae’r Busnes/Sefydliad wedi ymrwymo i Ddatblygu Cynaliadwy o fewn y prosiect a’r busnes, er enghraifft:

- Sut bydd y prosiect yn gwella effeithlonrwydd adnoddau;
- lleihau’r defnydd o ynni a dŵr;
- defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy;
- lleihau gwastraff;
- ychwanegu gwerth at wastraff neu sgil-gynhyrchion;
- cyfrannu at ffyrdd iachach o fyw;
- darparu gwasanaeth dwyieithog yn y gweithle;
- sicrhau cyflenwadau bwyd a chadernid y farchnad;
- talu’r cyflog byw cenedlaethol i weithwyr dan 25 oed;
- cyflenwi sianeli dosbarthu, fel elusennau banciau bwyd;
- cefnogi cadwyni cyflenwi lleol?

Hefyd, bydd yn rhaid i chi esbonio sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at yr amcanion thematig, er enghraifft:

- Hyrwyddo a datblygu sector bwyd a diod llewyrchus sydd ar ei dyfiant yng Nghymru.
- Cyfrannu at ddatblygu delwedd werdd ar sail dulliau cynhyrchu cynaliadwy.
- Cyfrannu at gynyddu gallu’r diwydiant i wrthsefyll newidiadau yn y farchnad.
- Cyfrannu at ysgogi gwelliannau o ran diogelwch bwyd.
- Hyrwyddo arloesi technolegol o ran cynhyrchion a phrosesau.
- Cyfrannu at gynnig cyfleoedd gyrfa ar lefelau sgiliau amrywiol.

Dangosir yr adran Ffit Strategol yn y sgrin lun isod:




Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau. Mae'n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Addasrwydd y Buddsoddiad


Ar y dudalen 'Addasrwydd y Buddsoddiad' bydd yn rhaid i chi gyflwyno manylion a fydd yn ein galluogi i werthuso pa mor briodol yw'r buddsoddiad. Sut bydd y Busnes/Sefydliad yn cynyddu ei gynhyrchiant a'r amcanestyniadau trosiant y disgwylir eu cyflawni o fewn tair blynedd i gwblhau'r prosiect. Sut bydd y cynlluniau'n effeithio ar yr amgylchedd a sut rydych wedi cymryd y camau hyn i ystyriaeth.

Esboniwch sut bydd y Busnes/Sefydliad yn cynyddu ei gynhyrchiant a'i drosiant.

Wrth gyflwyno'r amcanestyniadau hyn, rhowch esboniadau ochr yn ochr ag unrhyw ragdybiaethau.

Ystyriwch ac esboniwch sut bydd y cynlluniau'n effeithio ar yr amgylchedd ac yn cyfrannu at newid hinsawdd. Esboniwch sut rydych wedi ystyried y camau hyn, ynghyd ag unrhyw ganlyniadau y disgwylir eu cyflawni.


Nodwch i ba raddau y bydd y cynlluniau'n defnyddio cyfarpar a thechnegau arloesol. Esboniwch y fantais gystadleuol a enillir drwy'r buddsoddiad hwn.




Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.

Mae'n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




Yn ôl at y Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Cyflawni'r Prosiect

Ar y dudalen 'Cyflawni'r Prosiect' byddwch yn cyflwyno'r cynllun gwaith y mae'r Busnes/Sefydliad yn bwriadu mynd i'r afael ag ef.

Yn yr adran hon, bydd yn rhaid i chi esbonio'r canlynol:

- Pam mae'r prosiect yn angenrheidiol.
- Sut bydd y prosiect yn helpu i gyflawni nodau, amcanion a thargedau'r busnes?
- Yr hyn y bwriadwch ei wneud, a'r lleoliad; disgrifiwch y farchnad neu'r cynnyrch newydd arloesol i ddenu marchnadoedd a symud ymlaen.
- Esboniwch unrhyw waith dadansoddi marchnadoedd/ymchwil a wnaed ynghyd ag unrhyw ymgysylltu gydag Arloesi Bwyd Cymru neu raglenni cyfatebol yn ymwneud â datblygu bwyd.
- Sut rydych yn bwriadu gwneud hyn; cyflwynwch dystiolaeth fod cadwyni cyflenwi perthnasol ar waith i gefnogi'r prosiect?
- Sut bydd y farchnad neu'r cynnyrch newydd yn cael eu darparu ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau.
- Amserlen ar gyfer cyflawni holl weithgareddau a holl gamau eich prosiect.
- Esboniwch sut cafodd yr amserlenni eu pennu.
- Disgrifiwch effaith y Prosiect ar gapasiti cynhyrchu.
- Esboniwch sut rydych yn bwriadu dilyn y gweithdrefnau priodol wrth gaffael a thendro a dangoswch fod amserlenni priodol ar waith.


Rhaid mynd i'r afael â phrosesau tendro a chaffael cystadleuol yn unol â 'Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus: Nodiadau Canllaw Technegol' Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus – Nodiadau Canllaw Technegol


Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus – Cofrestr a Chofnod

Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.


Mae'n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.




Ar ôl i chi ateb y cwestiwn cyntaf, bydd yn rhaid i chi ychwanegu Gweithgareddau'r Prosiect.  Dewiswch y botwm **Ychwanegu Gweithgaredd** i fynd yn eich blaen.




Ar ôl i chi ddewis y botwm **Ychwanegu Gweithgaredd**, fe welwch y dudalen hon.




Yma, rhaid i chi nodi enw’r Gweithgaredd, rhoi disgrifiad ohono, a nodi’r dyddiad dechrau a’r dyddiad gorffen ar ei gyfer.  Yn syml, defnyddiwch fotwm y **calendr** i ychwanegu eich dyddiadau.  Ar ôl i chi gofnodi’r holl wybodaeth, dewiswch y botwm **Safio ac Ychwanegu Un Arall** (er mwyn ychwanegu gweithgaredd arall), neu’r botwm **Cadw a Dychwelyd** (os ydych wedi gorffen).  Gallwch gofnodi cynifer o brosiectau ag y dymunwch.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.





[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Cyflawni – Risg a Rheoli Risg

Ar y dudalen 'Cyflawni – Risg a Rheoli Risg' byddwch yn defnyddio tabl i grynhoi o leiaf bump o brif risgiau a allai effeithio ar eich gallu i gyflawni'r prosiect a sicrhau allbynnau ac amcanion y prosiect.  Yn cynnwys:


- Beth yw'r risg a pha mor debygol yw hi o ddigwydd yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect?
- Beth fyddai'r oblygiadau i'r prosiect pe bai hyn yn digwydd?
- Pa gamau y gellir eu cymryd i geisio atal hyn rhag digwydd a beth ellir ei wneud i leihau'r effaith ar y prosiect pe bai'n digwydd?

Mae'n orfodol i chi ateb y cwestiwn yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb ychwanegu o leiaf bump o risgiau.





Cliciwch ar **Ychwanegu Risg** i ddechrau cofnodi eich risg gyntaf.

Ar ôl i chi glicio ar y botwm hwn, fe welwch y sgrin gofnodi isod:




Ar ôl i chi gofnodi'r holl wybodaeth, dewiswch y botwm **Safio ac Ychwanegu Un Arall** er mwyn ychwanegu gweithgarwch arall, neu'r botwm **Cadw a Dychwelyd** os ydych wedi gorffen.

Bydd yn rhaid i chi wneud hyn ar gyfer pump o risgiau gwahanol o leiaf.  Os na fyddwch yn nodi o leiaf bump o risgiau, bydd neges gwall yn ymddangos, a dangosir ar y sgrin fod yr adran heb ei chwblhau, fel yn y sgrin lun isod:




Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




Yn ôl at y Cynnwys


# Cynllun y Busnes/Prosiect – Cynaliadwyedd Hirdymor

Ar y dudalen ‘Cynaliadwyedd Hirdymor’ byddwch yn disgrifio sut mae modd i’r buddsoddiad cyfalaf a gewch annog buddsoddi pellach yn y Busnes/Sefydliad yn y dyfodol, gan gynnwys disgwyliadau o ran gwaith yn y dyfodol.

Yn yr adran hon, rhaid i’ch esboniadau gynnwys y canlynol hefyd:

- Sut mae’r Prosiect yn gobeithio darparu cyfleoedd ychwanegol am swyddi â thâl; rhowch arwydd o’r effaith economaidd ychwanegol a fydd yn helpu i gyflawni un o amcanion allweddol Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020.
- Os yw’r busnes yn eiddo i riant-gwmni, neu os yw wedi’i leoli ar fwy nag un safle, dim ond â safle’r prosiect hwn y dylai’r swyddi fod yn gysylltiedig.
- Cynhwyswch luniadau neu fanylion am swyddi a chyflogau, ynghyd â’r cynnydd mewn canrannau.
- Yn achos unrhyw swyddi a fydd yn deillio o’r prosiect, rhaid iddynt gael eu creu o fewn tair blynedd i gwblhau’r prosiect.  Peidiwch â chynnwys swyddi newydd sy’n seiliedig ar gontractau dim oriau – ni ddylid cynnwys y rhain yng ngwerth gros y cyflogau.
- Esboniwch beth yw strategaeth ymadael y prosiect.
- Ar gyfer prosiectau buddsoddi cyfalaf, er enghraifft, beth mae’r busnes yn gobeithio ei wneud dros y flwyddyn nesaf, y tair blynedd nesaf a’r pum mlynedd nesaf o ganlyniad i’r buddsoddiad?
- A oes yna botensial ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol?

Cyflwynir yr adran hon ar ffurf un blwch testun mawr, fel y gwelir yn y sgrin lun isod:



Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.  Cadwch hyn mewn cof wrth lenwi eich ffurflen.

Mae'n orfodol i chi ateb y cwestiwn yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb ei ateb.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich ateb, dewiswch y botwm **Nesaf**.





Yn ôl at y Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Rheoli'r Prosiect

Ar y dudalen 'Rheoli'r Prosiect' bydd yn rhaid i chi gyflwyno'r wybodaeth ganlynol am reoli'r Prosiect:


- Esboniwch sut mae gan yr ymgeisydd y capasiti a'r adnoddau angenrheidiol i ddarparu'r prosiect yn llwyddiannus ac i gyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau arfaethedig.
- Cyflwynwch gynllun gweithredu'r prosiect a dangoswch yr holl weithgareddau a'r holl adnoddau a fydd yn cael eu hymrwymo ar gyfer y cynnig.
- Esboniwch pa sgiliau gweithredol, technegol, ariannol a phersonél sydd gan y Busnes/Sefydliad i ddarparu'r prosiect hwn; dylech gynnwys sgiliau cyfathrebu pan fo angen.
- Cofnodwch hanes blaenorol y tîm rheoli a'r staff allweddol a fydd yn gysylltiedig â darparu'r prosiect. Pan fo'n briodol, esboniwch unrhyw fuddsoddiad i wella sgiliau'r staff presennol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r prosiect yn llwyddiannus.
- Cyflwynwch dystiolaeth o sgiliau rheoli'r busnes/corff, pan fo tystiolaeth o'r fath ar gael. Cyflwynwch dystiolaeth o brofiad y busnes o wneud gweithgarwch tebyg. Esboniwch sut mae'r profiad yn gymesur â maint y prosiect.



Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.

Mae'n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys]


Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Mawrth 2021
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Gwerth am Arian

Ar y dudalen 'Gwerth am Arian' byddwch yn cyflwyno gwybodaeth am gostau a dyfynbrisiau'r Prosiect.

Er mwyn llenwi'r adran hon rhaid i chi ddarllen 'Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus: Nodiadau Canllaw Technegol' Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 cyn ysgwyddo unrhyw gostau.

I gael mwy o wybodaeth, gweler:

Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus – Nodiadau Canllaw Technegol

Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus – Cofrestr a Chofnod

Mae'n ofynnol i brosiectau ddarparu gwerth am arian.  Bydd prosiectau'n cael eu sgorio yn erbyn ceisiadau eraill a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgeisio, a hynny ar sail y cynnydd disgwyliedig mewn trosiant o fewn tair blynedd i gwblhau'r prosiect, wedi'i rannu â gwerth y grant y gwneir cais amdano.

Yn yr adran hon, cyflwynwch fanylion am y cynnydd y disgwylir ei weld mewn trosiant o fewn tair blynedd i gwblhau'r prosiect ac esboniwch sut rydych wedi pennu'r amcanestyniadau hyn.

- Rhaid i chi gynnwys yr holl wariant arfaethedig ac esbonio sut rydych wedi cyfrifo cyfanswm costau bras y prosiect.
- Esboniwch sut cafodd costau'r prosiect eu hystyried, gan roi ystyriaeth i gwmpas, graddfa ac amserlen y cynigion.
- Cyflwynwch dystiolaeth o ymarferion dyfynbrisiau a roddwyd ar waith gennych, neu gopïau o ddyfynbrisiau os oes rhai ar gael.  Os bydd yr eitem a brynir yn werth £5,000 neu fwy, bydd angen tri dyfynbris o leiaf.  Dim ond un dyfynbris sydd ei angen ar gyfer eitemau dan £5,000.  Rhaid i ddogfennau'r dyfynbris gynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i allu adnabod y cyflenwr, gan gynnwys ei gyfeiriad, ei fanylion cyswllt a Rhif Cofrestru'r Cwmni (a rhif TAW os yw'n berthnasol).
- Pan fo'n briodol, dangoswch sut cafodd y gwahanol opsiynau ar gyfer cyflawni amcanion y prosiect eu hystyried ac esboniwch sut a pham y penderfynwyd ar yr opsiwn a ddewiswyd.


Rhaid i'r holl gyflenwyr fod yn rhai go iawn h.y. maent yn fusnesau sydd wedi ennill eu plwyf ac sy'n hysbysebu'r gwasanaeth dan sylw.  Os nad yw'r busnes ar y rhyngrwyd neu â chofnod gyda Thŷ'r Cwmnïau, bydd angen cyflwyno rhagor o wybodaeth yn y rhan hon o'r ffurflen.  Nid yw hyn yn anarferol, ond bydd angen tystiolaeth bellach fod y busnes yn ymgymryd â'r gwaith dan sylw.  Gall hyn gynnwys:

- llythyr oddi wrth ei gyfrifydd;
- gohebiaeth â CThEM ynglŷn â'r busnes;
- derbynebau perthnasol;
- gohebiaeth â'r awdurdod lleol;
- tair blynedd o gyfrifon.


**I lenwi'r adran hon ar ddyfynbrisiau, rhaid i chi fod wedi cael dyfynbris ar gyfer pob eitem gwariant sy'n werth hyd at £5,000.  Ar gyfer eitemau dros £5,000, rhaid cael tri dyfynbris.  Rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth o'r dyfynbrisiau hyn gyda'r cais hwn.**

Dangosir y dudalen 'Gwerth am Arian' gyntaf yn y sgrin lun isod.


Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.  Mae'n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.



Cliciwch ar **Ychwanegwch yr eitem yr ydych yn buddsoddi ynddi**. Os oes gennych fwy nag un eitem dan un categori, yna dylech gyfuno'r costau er mwyn cael cyfanswm cyffredinol ar gyfer pob categori. Yna, dangoswch wahanol elfennau'r cyfanswm hwnnw yn y blwch 'Rhowch fanylion'.





Ar ôl cyrraedd y tabl Eitemau Buddsoddi, bydd yn rhaid i chi ddewis y botwm **Ychwanegwch yr eitem yr ydych yn buddsoddi ynddi** i barhau a chofnodi eich dyfynbrisiau.





Dewiswch y botwm **Eitem** i weld rhestr gwymplen o eitemau i ddewis o'u plith.

Gallwch naill ai chwilio trwy'r rhestr am yr eitem dan sylw neu gallwch ddechrau teipio'r llythrennau cyntaf yn y bar chwilio a bydd y rhestr yn dod o hyd i eitemau cyfatebol.





Dewiswch eitem o'r fan hon.

Dewiswch y botwm **Ychwanegu Dyfynbris** – bydd y dudalen ganlynol yn ymddangos. Cofnodwch fanylion eich dyfynbris. Os mai un dyfynbris yn unig sydd gennych ar gyfer yr eitem buddsoddi hon, bydd yn rhaid i chi dicio'r blwch Dyfynbris a Ffefrir.





Os mai 'Oes' fydd eich ateb i'r cwestiwn *"A oes gennych chi neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r Prosiect fudd yn y cyflenwr hwn?"*, bydd blwch testun yn ymddangos lle gallwch nodi manylion y camau y mae'r Busnes/Sefydliad wedi'u cymryd i leihau'r gwrthdaro buddiannau hwn. Rhaid i chi ateb y cwestiwn hwn cyn y gallwch fwrw ymlaen â'r cais.




Yna, cewch y dewis i ‘Safio ac Ychwanegu Un Arall’ neu ‘Cadw a Dychwelyd’ at y dudalen Eitemau Buddsoddi.


Ar ôl i chi ddychwelyd at y dudalen Eitemau Buddsoddi, dangosir gwybodaeth eich dyfynbris(iau).




Os yw gwerth eich dyfynbris yn fwy na £5,000, ac os mai un dyfynbris yn unig sydd gennych i’w gyflwyno, rhaid i chi roi tic yn y blwch i ddangos eich bod yn dymuno cyflwyno’r cais gyda llai na thri o ddyfynbrisiau ar gyfer yr eitem buddsoddi hon. Bydd blwch testun yn ymddangos lle gallwch esbonio pam rydych yn cyflwyno llai na thri dyfynbris ar gyfer yr eitem buddsoddi hon.





Yna, cewch y dewis i ‘Safio ac Ychwanegu Un Arall’ neu ‘Cadw a Dychwelyd’ at y dudalen Gwerth am Arian.





[Yn ôl at y Cynnwys](#)


## Y Grantiau Mwyaf a Lleiaf

Gan mai £150,000 yw'r grant mwyaf y gellir gwneud cais amdano dan gynllun Bwyd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig, bydd y gwerthoedd a nodir yn y tabl dyfynbrisiau yn cael eu capio ar y swm hwn.






Bydd neges yn ymddangos ar y sgrin i adlewyrchu hyn, sef '*Rydych wedi mynd dros y grant mwyaf o £150,000.00 Byddwn yn rhan-ariannu un eitem*.'



Os bydd nifer o eitemau gwariant yn fwy na gwerth y grant o £150,000, bydd yn rhaid i chi ddileu un eitem gan fod yr eitemau eraill a gofnodwyd eisoes yn fwy na gwerth mwyaf y grant.




Os na fydd y gwerthoedd a gofnodir yn yr adran hon yn cyrraedd gwerth isaf y grant (£5,000) ar gyfer cynllun Bwyd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig, fel y dangosir isod, bydd neges yn ymddangos ar y sgrin i adlewyrchu hyn.  Ni fydd modd i chi fwrw ymlaen â'ch cais hyd nes y cyrhaeddir gwerth isaf y grant.




Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys](#)


# Cynllun y Busnes/Prosiect – Themâu Trawsbynciol


Ar y dudalen ‘Themâu Trawsbynciol’ byddwch yn cyflwyno tystiolaeth ynglŷn â sut mae’r Prosiect arfaethedig yn cyfrannu at themâu trawsbynciol. Yn yr adran hon bydd yn rhaid i chi esbonio sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at y themâu trawsbynciol a ganlyn:

- Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd;
- Datblygu Cynaliadwy;
- mynd i’r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol;
- yr Iaith Gymraeg.


Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 2000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 2000, nid nifer y geiriau.

Mae’n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.



Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




Yn ôl at y Cynnwys

# Cynllun Busnes/Prosiect – Dangosyddion a Chanlyniadau

Y dudalen Dangosyddion a Chanlyniadau yw lle byddwch yn darparu gwybodaeth am sut y byddwch yn diogelu swyddi ac yn creu swyddi o ganlyniad i'r prosiect. Mae'n ofynnol i bob prosiect a gefnogir adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru yn unol â nifer o Ddangosyddion Perfformiad y cytunwyd arnynt.

Bydd y ffurflen ar-lein yn rhestru'r dangosyddion perthnasol a bydd angen i chi osod targedau yn unol â nhw.

**Is-fesur 6.4**

Mae'n ofynnol i bob prosiect a gefnogir adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru yn unol â nifer o Ddangosyddion Perfformiad y cytunwyd arnynt. Dylai'r rhain ystyried pa gyfraniad mesuradwy y bydd y prosiect hwn yn ei wneud i unrhyw un neu bob un o'r canlynol:

- targedau rhaglenni'r UE ar gyfer Allbynnau a Dangosyddion;
- amcanion neu dargedau penodol Llywodraeth Cymru;
- Strategaethau Datblygu Lleol;
- unrhyw amcanion strategol eraill.

Eglurwch sut y bydd y targedau yn cael eu cyflawni.

Eglurwch sut y caiff cynnydd ei fonitro, gan gynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer gwerthuso allanol annibynnol lle bo angen.

Mae'n ofynnol i bob prosiect a gefnogir adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru yn unol â'r dangosyddion y cytunwyd arnynt. Bydd y data a adroddir yn cael eu defnyddio gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMC) a'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) i fonitro cynnydd rhaglenni a chaiff eu defnyddio i lywio gwerthusiadau cynnydd ar lefel rhaglen yn unol â dangosyddion effaith.

Mae'r dangosyddion lefel Rhaglen a restrir yn y tabl isod wedi'u pennu, ond ar gyfer dangosyddion lefel achos a restrir dylech ddewis o leiaf dau sy'n berthnasol i'ch prosiect i ddangos tystiolaeth o weithgarwch a gyflawnwyd. Efallai na fydd eich prosiect yn cael ei gefnogi os na fyddwch yn dewis o leiaf dau o'r rhestr o ddangosyddion lefel achos a ddangosir. Gellir dewis mwy na dau ddangosydd lefel achos.

Bydd yn ofynnol i brosiectau roi targedau i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob un o'r dangosyddion a ddewiswyd. Bydd angen dadansoddi'r targedau hyn fel y gellir mesur cynnydd ar wahanol adegau yn ystod oes y prosiect (gweithredu).

Isod ceir rhestr o'r dangosyddion perfformiad a ddefnyddir i fonitro a gwerthuso'r holl brosiectau a ariennir drwy'r Cynllun hwn. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus i'r cynllun wedyn yn cael rhagor o fanylion am is-gategorïau dangosyddion a gofynion

tystiolaeth archwilio.  Dylid nodi hefyd y cysylltir ag ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer gweithgareddau ymchwil yn y dyfodol i werthuso effeithiolrwydd y Cynllun hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am fonitro a gwerthuso, anfonwch e-bost at y Tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso (RME): RDPMandE@gov.wales

| Enw Dangosydd Perfformiad | Diffiniad |
|---|---|
| **Dangosyddion Lefel Rhaglen** | ***RHAID DARPARU TYSTIOLAETH O BOB UN O'R 3 DANGOSYDD LEFEL RHAGLEN*** |
| O.3 Nifer y gweithrediadau a gefnogir. | Nifer y gweithrediadau a gefnogir, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o weithrediad (cangen amaethyddol a maint lle bo hynny'n berthnasol). |
| O.4 Nifer y deiliaid/buddiolwyr a gefnogir | Nifer y daliadau neu fuddiolwyr sy'n cael cymorth - Os cefnogir daliadau a buddiolwyr o dan yr un is-fesurau, cânt eu hychwanegu heb unrhyw wahaniaeth.<br><br>Unigolion neu endidau ar wahân i ddaliadau fferm a gafodd gymorth yw buddiolwyr.  Dylid dadansoddi data yn ôl rhyw / oedran / cangen amaethyddol a maint ardal lle bo hynny'n berthnasol. |
| R. 21 Nifer y swyddi a grëwyd | Cyfanswm nifer y swyddi parhaol a grëwyd (heb eu cynnal) drwy brosiectau sy'n cael cymorth a fynegir cyfwerth ag amser llawn (FTE), yn ôl rhyw.  Dim ond swyddi newydd a grëwyd mewn gwirionedd y dylid eu cyfrif, ac eithrio swyddi a gynhelir.  Mae'n ymwneud â chyflogaeth pan fydd y prosiect ar waith, h.y. os yw'r prosiect yn creu siop fferm, nid yw'n cynnwys cyflogaeth a grëwyd yn ystod y cyfnod adeiladu dylunio/adeiladu – ymgynghorydd/pensaer/adeiladwyr, ond y gyflogaeth a grëir pan fydd y siop yn rhedeg (rheolwr, cynorthwywyr gwerthu etc).  Ni ddylid cyfrif gwaith gwirfoddol ond mae hunangyflogaeth wedi'i chynnwys.  Cyfrifir data ar sail FTE; felly, os caiff swydd hanner amser bresennol ei thrawsnewid yn swydd amser llawn, gwerth y dangosydd yw 0.5 (ystyrir bod hanner swydd yn cael ei chreu).  I gyfrif un swydd a grëwyd, dylai hyd y contract fod yn flwyddyn neu fwy (e.e. contract chwe mis ar 100% yw 0.5). |
| **Dangosyddion Lefel Achos** | ***RHAID ATEB O LEIAF 2*** |
| Swyddi a ddiogelir | Swyddi a ddiogelir yw lle gwyddys bod swyddi mewn perygl dros y 12 mis nesaf.  Dylid sgorio swyddi fel FTE a pharhaol (gellir sgorio swydd dymhorol ar yr amod y disgwylir i'r swydd ddigwydd eto am gyfnod amhenodol; dylid cofnodi cyfran y flwyddyn a weithir hefyd).  Dylid sgorio'r swydd ei hun nid amcangyfrif o faint o bobl a allai feddiannu'r swydd.  Os nad yw'r swydd yn llawn amser yna bydd angen rhannu'r oriau yr wythnos â 30 i ganfod y gyfran FTE y mae'n cynrychioli (e.e. 18 awr yr wythnos fyddai 0.6 FTE). |
| Nifer y busnesau micro bach a chanolig a gefnogir | Dyma nifer y mentrau sy'n cael cymorth uniongyrchol gan y Cynllun Datblygu Gwledig.  Gallai'r gweithgareddau a gyflawnir gan brosiectau (gweithrediadau) gynnwys codi ymwybyddiaeth, cyngor, cymorth, gweithgareddau mentora etc – ond ni ddylent gynnig grantiau na chymorth ariannol arall. |

| Enw Dangosydd Perfformiad | Diffiniad |
|---|---|
| | Mae busnes micro, bach a chanolig yn un sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac sydd â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na EUR 50 miliwn, a/neu gyfanswm mantolen flynyddol nad yw'n fwy na EUR 43 miliwn. |
| Cyflogeion a gefnogir – Trechu Tlodi | Nifer y bobl a gyflogir a oedd gynt yn derbyn budd-daliadau allan o waith mewn menter sy’n cael cymorth gan gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig o dan y cynllun. |
| Cyflogeion a gefnogir – Pobl Ifanc | Nifer y bobl ifanc a gyflogir gan fenter sy’n cael cymorth gan gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig o dan y prosiect hwn. |
| Cyflogeion a gefnogir – Menywod | Nifer y menywod a gyflogir mewn menter a gynorthwyir gan gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig o dan y prosiect hwn. |
| Cyflogeion a gefnogir – Siaradwyr Cymraeg | Nifer y siaradwyr Cymraeg a gyflogir mewn menter a gynorthwyir gan gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig o dan y cynllun hwn. |

**Gwybodaeth Gyffredinol ar gyfer pob Mesur**

Dylai'r rhain ystyried pa gyfraniad mesuradwy y bydd y prosiect hwn yn ei wneud i unrhyw un neu bob un o'r canlynol:

- targedau rhaglenni’r UE ar gyfer Allbynnau a Dangosyddion;
- amcanion neu dargedau penodol Llywodraeth Cymru;
- Strategaethau Datblygu Lleol;
- unrhyw amcanion strategol eraill.


Eglurwch sut y bydd y targedau yn cael eu cyflawni.

Eglurwch sut y caiff cynnydd ei fonitro, gan gynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer gwerthuso allanol annibynnol lle bo angen.

# Dangosyddion a Chanlyniadau


Y dudalen Dangosyddion a Chanlyniadau yw lle byddwch yn darparu gwybodaeth am sut y caiff targedau eu cyrraedd ynghyd â monitro a chynnydd i fodloni Lefel y Rhaglen a Dangosyddion Lefel Achos.

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn orfodol ac ni fyddwch yn gallu cyflwyno'ch ffurflen heb eu hateb.





Ar y Tabl Dangosyddion Lefel Rhaglen, dewiswch fotwm glas 'Ychwanegu Dangosydd' i ddarparu ymatebion i'r Dangosyddion Lefel Rhaglen yn unol â'r tabl uchod.


Dewiswch y Dangosydd Lefel Rhaglen yr hoffech ymateb iddo o'r gwymplen sydd ar gael.



Mae ymatebion i'r holl gwestiynau yn orfodol ac ni fyddwch yn gallu cyflwyno'ch ffurflen heb eu llenwi.




***<u>RHAID DARPARU TYSTIOLAETH AR GYFER POB UN O'R 3 DANGOSYDD LEFEL RHAGLEN</u>***





Unwaith y bydd pob un o'r tri Dangosydd Lefel Rhaglen wedi'u hychwanegu, cadwch eich cofnodion a dychwelyd i'r brif dudalen Dangosyddion a Chanlyniadau.

Nawr bydd angen i chi gwblhau'r tabl Dangosyddion Lefel Achos.





Ar y Tabl Dangosyddion Lefel Achos, dewiswch fotwm glas 'Ychwanegu Dangosydd' i ddarparu ymatebion i'r Dangosyddion Lefel Achos yn unol â'r tabl uchod.

Dewiswch y Dangosydd Lefel Achos yr hoffech ymateb iddo o'r gwymplen sydd ar gael.



Mae ymatebion i'r holl gwestiynau yn orfodol ac ni fyddwch yn gallu cyflwyno'ch ffurflen heb eu llenwi.



Dangosyddion a Chanlyniadau - Tabl Dangosyddion Lefel Achos

*Rhaid ateb cwestiynau wedi'u marcio â * .*

Dangosydd Lefel Achos* — Dewiswch os gwelwch yn dda

Rhaid ateb y cwestiwn hwn.

Nodwch y rhif*

Rhaid ateb y cwestiwn hwn.

Rhowch fanylion*

Rhaid ateb y cwestiwn hwn.

0 / 500

Sut fyddwch yn cyrraedd y Targed?*

Rhaid ateb y cwestiwn hwn.


0 / 500

Sut gaiff y cynnydd ei fonitro, gan gynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer gwerthuso allanol ble y bo angen?*

Rhaid ateb y cwestiwn hwn.

0 / 500

***RHAID DARPARU TYSTIOLAETH AR GYFER O LEIAF 2 NEU FWY O DDANGOSYDDION LEFEL ACHOS***




| Dangosydd Lefel Rhaglen | Nifer | Canlyniad Mesuradwy | Taro targedau | Monitro cynnydd | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y gweithrediadau a gynorthwywyd | 8 | Rhowch fanylion | Bydd y targed yn cael ei gyflawni gan ... | Bydd cynnydd yn cael ei fonitro | Addasu Dileu |
| Nifer y daliadau a/neu'r buddiolwyr a gefnogir | 10 | Teulu | Bydd y targed o 100 yn cael ei gyrraedd erbyn | Bydd monitro cynnydd yn cael ei gyflawni gan ... | Addasu Dileu |
| Nifer y swyddi a grëwyd | 15 | Manylion | Cyrhaeddir y targed gan | Bydd cynnydd yn cael ei fonitro | Addasu Dileu |

| Dangosydd Lefel Achos | Nifer | Canlyniad Mesuradwy | Taro targedau | Monitro cynnydd | |
|---|---|---|---|---|---|
| Swyddi a Ddiogelwyd | 56 | Staff | Cyrhaeddir y targed | Bydd cynnydd yn cael ei fonitro | Addasu Dileu |

Unwaith y byddwch wedi nodi'r ymatebion Dangosyddion Lefel Achos, arbedwch eich atebion a dychwelyd i'r brif dudalen Dangosyddion a Chanlyniadau.



Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




Yn ôl at y Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Ariannol a Chydymffurfio

Yn yr is-adran olaf o fewn Cynllun y Busnes/Prosiect, bydd gofyn i chi gyflwyno gwybodaeth am elfennau ariannol ac elfennau cydymffurfio eich prosiect.

**Pob Prosiect**

Pa gyllid a ddefnyddir i ariannu unrhyw elfen o’r prosiect na chaiff ei hariannu gan grant? Rhowch dystiolaeth ar ffurf gohebiaeth pan fo modd.

Pa gamau a gymerwyd gennych i chwilio am gyllid ar gyfer y prosiect cyn ymgeisio am grant? Cyflwynwch dystiolaeth o ohebiaeth os oes modd.

Pa gyllid sydd gan y busnes ar hyn o bryd? Cyflwynwch dystiolaeth o unrhyw orddrafft/benthyciad sydd gennych neu gyfleusterau bancio eraill os oes modd.

Esboniwch yn fanwl pam mae angen y swm penodol rydych wedi gofyn amdano fel cymorth grant.

Wrth ateb yr uchod, rhaid i chi ystyried a chynnwys y canlynol yn eich esboniadau:

Esboniwch sut rydych chi, fel yr ymgeisydd, yn bwriadu cwrdd â’r rhwymedigaethau ariannol a’r rhwymedigaethau cydymffurfio sy’n ofynnol wrth gyflawni’r prosiect.

Dangoswch sut mae eich systemau ariannol a’ch systemau cynllunio ariannol yn drylwyr.

Rhowch gyfrif manwl o’r holl ragdybiaethau sylfaenol mae’r cynlluniau ariannol yn seiliedig arnynt ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol pan fo hynny’n briodol (er enghraifft, ffigurau dadansoddi’r farchnad ar gyfer prosiectau buddsoddi mewn gweithgareddau prosesu).

Nodwch y ffynonellau cyllid ar gyfer y cynnig hwn. Rhaid i chi nodi a yw pob un o’r ffynonellau cyllid eisoes wedi’u sicrhau ynteu ai rhai amodol yn unig ydynt. Mae yna bedair o elfennau y gallwch ymdrin â nhw yn y data ariannol:

- Cyfrif elw a cholled;
- mantolen;
- rhagolygon arian parod;
- trosiant.

Nodwch eich rhagdybiaethau ynghylch trosiant a llif arian.

Rhaid i'r crynodeb ariannol yn y cynllun fod yn fyr ac yn hawdd ei ddilyn. Mae'n bwysig iawn i chi gynnwys eich rhagolygon ochr yn ochr â gwybodaeth hanesyddol. Bydd hyn yn rhoi cyd-destun i'ch cynllun ariannol. Dylech gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol yn eich sefyllfa ariannol, unrhyw newidiadau mawr yn y farchnad neu o ran cystadleuaeth, ac unrhyw faterion eraill sydd wedi effeithio ar y busnes. Rydym angen gweld manteision y cynnig ynghyd â'r stori'n gryno ar ffurf rhifau.


Rhaid i chi gynnwys enillion ar fuddsoddiad a dangos sut rydych wedi cyfrifo hyn.

Os ydych yn fusnes sydd newydd gychwyn neu'n sefydliad sydd newydd gael ei gorffori, ni fydd modd i chi gyflwyno gwybodaeth hanesyddol. Mewn achosion o'r fath, bydd yn rhaid i chi roi amcangyfrifon wedi'u seilio ar gymaint o wybodaeth sector-benodol â phosibl ar ffurf profiad blaenorol neu ymchwil farchnata, neu gyfuniad o'r ddau.

Rhestrwch eich ffynonellau ymchwil, os gwelwch yn dda.

Cyflwynwch asesiad yn ymwneud â pha mor fforddiadwy yw'r prosiect h.y. tystiolaeth y bydd modd i'r ymgeisydd ysgwyddo'r costau gyda'r cyllid grant.


Ar y dudalen 'Ariannol a Chydymffurfio' byddwch yn cyflwyno manylion ynglŷn â sut bydd y Prosiect yn cael ei ariannu, yn ychwanegol at unrhyw grant a roddir, a sut rydych yn bwriadu cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau angenrheidiol.




Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.

Mae'n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.


Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.





Yn ôl at y Cynnwys

# Rhestr o Ddogfennau Atodol sydd eu hangen


Ar y dudalen ‘Rhestr o’r Dogfennau Atodol sydd eu hangen’ ceir rhestr o’r holl ddogfennau mae’n rhaid i chi eu cyflwyno gyda’ch cais, ynghyd â rhestr o rai o’r dogfennau eraill y gall fod angen i chi eu cyflwyno i ategu eich cais, gan ddibynnu ar eich prosiect.




Rhaid i chi ddewis o leiaf un ffordd o gyflwyno dogfennau ategol er mwyn symud ymlaen i’r dudalen nesaf.




Ar ôl i chi orffen dewis eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.





Yn ôl at y Cynnwys

# Cyflwyno

## Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Bydd yr adran nesaf yn dangos unrhyw Gamgymeriadau o fewn eich cais, ynghyd â Chrynodeb o'ch cais.

Mae'r sgrin lun a ganlyn yn dangos y neges a fydd yn ymddangos os nad oes camgymeriadau i'w cael:




Ni fydd y testun rydych wedi'i ysgrifennu yn unrhyw un o'r blychau testun mawr yn cael ei ddangos yn y fan hon, ond bydd i'w weld yn y crynodeb PDF a anfonir atoch trwy gyfrwng RPW Ar-lein ar ôl i chi gyflwyno eich cais yn llwyddiannus.

Mae'r sgrin lun canlynol yn dangos y neges a fydd yn ymddangos os bydd camgymeriadau i'w cael. Tynnir eich sylw at y camgymeriadau hyn er mwyn i chi allu eu cywiro.

> Mae camgymeriadau ar eich ffurflen. Edrychwch eto a chywirwch unrhyw gamgymeriadau.


Ar ôl i chi wirio'r crynodeb a chywiro unrhyw gamgymeriadau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Datganiad ac Ymrwymiadau


Rhaid i chi ddarllen yr adran ‘Datganiad ac Ymrwymiadau’ a welwch yn y sgrin lun isod. Ar ôl i chi wneud hyn, ticiwch y blwch ar waelod y sgrin i gadarnhau eich bod yn cytuno â nhw, fel y dangosir yn y sgrin lun isod:




Ar ôl i chi ddarllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau, **ticiwch** y blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen a’ch bod yn cytuno â nhw.





Cliciwch ar y botwm **Nesaf** i fynd i’r dudalen ‘Cyflwyno’.





[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Cyflwyno

I gyflwyno eich Ffurflen Gais Bwyd ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig, cliciwch ar y botwm **Cyflwyno**.




Ar ôl i’ch cais gael ei gyflwyno, fe welwch y dudalen ‘Cadarnhad’, a gallwch argraffu copi o’r dudalen hon ar gyfer eich cofnodion trwy ddewis y botwm **Printio’r Sgrin Hon**.




Yn awr, gallwch ddewis y botwm **Cyflwyno Dogfennau** er mwyn cael eich tywys yn syth at eich tudalen Negeseuon ar RPW Ar-lein, neu gallwch ddewis y botwm **Gadael**.

**Sylwer:** Ar ôl i’r cais gael ei gyflwyno, ni allwch newid yr eitemau a ddewiswyd gennych.

Yn ôl at y Cynnwys

# Ar ôl Cyflwyno'r Cais yn Llwyddiannus

Bydd crynodeb o'ch Ffurflen Gais Bwyd ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig yn cael ei ychwanegu at eich tudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl "Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gweldig Cymru". Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ati'n ofalus i wirio'r wybodaeth a gyflwynwyd. Pe bai unrhyw ran o'r wybodaeth yn anghywir, atebwch y Neges gan nodi eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y dewch o hyd i unrhyw wybodaeth anghywir.

Os cewch broblemau neu os na allwch gael mynediad at ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl i chi gyflwyno eich cais, bydd yn cael ei asesu i weld a yw'n gymwys, bydd yn cael ei sgorio, ac os caiff ei ddewis bydd yn cael ei werthuso'n llawn ar gyfer ystyried cynnig contract iddo. Bydd y broses asesu'n ystyried unrhyw ddogfennau ategol a gyflwynir, pan fo hynny'n briodol.

Cewch wybod trwy gyfrwng eich cyfrif RPW Ar-lein a yw eich cais wedi'i ddewis ac a fydd yn cael ei werthuso'n llawn ar gyfer ystyried cynnig contract iddo.

Yn achos ceisiadau na fyddant yn llwyddiannus yn ystod y broses ddethol, rhoddir gwybod i chi trwy gyfrwng eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y canllawiau, oherwydd gall methu â gwneud hynny arwain at oedi cyn gwerthuso'r cais.

[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Cysylltiadau

## RPW Ar-lein

Gallwch gael mynediad at wasanaeth RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth gateway.gov.uk, neu ar ôl i chi gofrestru ar gyfer gwasanaeth RPW Ar-lein gallwch gael mynediad ato trwy llyw.cymru/mewngofnodi-ar-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein. Os nad ydych wedi cofrestru ar RPW Ar-lein, darllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru ar wefan Llywodraeth Cymru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

Ymholiadau – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer pob ymholiad, cysylltwch â **Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru**

Gellir cyflwyno ymholiadau ar RPW Ar-lein unrhyw adeg.

## Mynediad i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig nad yw ein cyfleusterau'n darparu ar eu cyfer yn eich tyb chi, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Yna, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwneud eu gorau i wneud trefniadau a fydd yn darparu ar gyfer eich anghenion.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, edrychwch ar wefan Llywodraeth Cymru. Wrth ymweld â'r wefan, gallwch hefyd gofrestru i gael yr e-gylchlythyr Gwlad.